# MiniPrint Cymru | Wales

Yn dilyn llwyddiant MiniPrint Cymru | Wales yn 2023, mae'n bleser gan Weithdy Argraffu Abertawe a'r Academi Frenhinol Gymreig groesawu MiniPrint Cymru | Wales yn 2025/26.

Mae MiniPrint Cymru | Wales yn arddangosfa ddwyflynyddol i wneuthurwyr printiau proffesiynol a newydd sy'n byw yng Nghymru; **neu** sy'n aelod o un o'r Partneriaid Rhanbarthol presennol: Academi Frenhinol Gymreig (Gogledd), Gweithdy Argraffu Abertawe (De), Gwneuthurwyr Printiau Aberystwyth (Gorllewin) a'r Ganolfan Argraffu Ranbarthol (Dwyrain); **neu** sy'n aelod o gyfleuster gwneud printiau yng Nghymru.

Caiff y gweithiau eu dewis gan Banel Dethol uchel eu parch:

- Rhian Wyn Stone, Cyfarwyddwr yr Oriel, Mission Gallery, Abertawe
- Jude Lau a Tom Whitehead, Cyfarwyddwyr, Printhaus, Caerdydd
- Andrew Baldwin, Gwneuthurwr Printiau, Trefeglwys, Aberystwyth
- Ruth Thomas, Gwneuthurwr Printiau, Rhuthun, Sir Ddinbych

Bydd yr holl waith dethol ar gael i'w werthu a'i arddangos yn Mission Gallery, Abertawe ac yn yr Academi Frenhinol Gymreig, Conwy. Bydd cyhoeddiad dwyieithog yn cyd-fynd â'r arddangosfa.
Caiff pob arddangoswr a ddewisir eu gwahodd i arddangosiad preifat yn y ddau leoliad. Bydd yr holl artistiaid a ddewiswyd yn cael copi am ddim o'r cyhoeddiad dwyieithog a fydd yn cynnwys eu gwaith. Bydd copïau o'r cyhoeddiad ar gael i'w gwerthu yn y lleoliadau drwy gydol cyfnod yr arddangosfa, am £10, neu gellir eu prynu ar-lein o wefan Gweithdy Argraffu Abertawe (am £10 ynghyd â chost postio) ar ôl y dyddiad cyhoeddi.

Bydd yr arddangosfa yn Mission Gallery, Abertawe yn rhedeg o ddydd Sadwrn, 8 Tachwedd 2025 i ddydd Sadwrn, 10 Ionawr 2026; a bydd yn teithio i'r gogledd i'r Academi Frenhinol Gymreig, Conwy yn 2026 o ddydd Sadwrn, 7 Mawrth 2026 i ddydd Sadwrn, 25 Ebrill 2026.

## Canllawiau Cyflwyno

### Gofynion Cyflwyno Print

- Gwahoddir cyflwyniadau gan artistiaid sy'n defnyddio unrhyw dechneg gwneud printiau adnabyddus a gynhyrchir â llaw, megis argraffu sgrin, lithograffi, ysgythriad, engrafiad, colagraff, monoteip, argraffu bloc, torlun pren etc.
- Ni dderbynnir printiau Giclée. Gellir defnyddio prosesau digidol, fodd bynnag, i wella printiau sydd wedi'u hargraffu'n draddodiadol.
- Rhaid cynnwys y ddelwedd brint o fewn ardal sgwâr o 10cm x 10cm ar faint papur sy'n mesur yn union 18cm x 18cm.
- Gwahoddir artistiaid i gyflwyno hyd at 3 gwaith celf unigol i gyd.
- Rhaid i artistiaid sicrhau bod 4 print ar gael ar gyfer pob un o'r gweithiau celf

- Os cânt eu dewis, bydd yn ofynnol i artistiaid anfon 4 print i Weithdy Argraffu Abertawe. Bydd 2 brint yn cael eu fframio ar gyfer arddangosfeydd yn Mission Gallery a'r Academi Frenhinol Gymreig, a bydd 2 brint ddim yn cael eu fframio
- Rhaid i bob print fod ar gael i'w gwerthu
- Mae'r gost ar gyfer cyflwyno gwaith celf fel a ganlyn:
    - 1 print am £15;
    - 2 brint am £20;
    - 3 phrint am £25;
- Nid oes thema benodol, ond am fod Mission Gallery a'r Academi Frenhinol Gymreig ar agor i'r cyhoedd, rydym yn cadw'r hawl i beidio ag arddangos unrhyw beth yr ydym yn ei ystyried yn anaddas.
- Uwchlwythwch eich cyflwyniad drwy CuratorSpace, gan sicrhau bod eich delweddau o ansawdd uchel, oherwydd bydd y panel yn gwneud eu detholiad yn seiliedig ar y delweddau digidol hyn.
- Bydd yr holl waith yn cael ei baratoi i'w arddangos gan Weithdy Argraffu Abertawe, a bydd yn cael ei gyflwyno mewn ffrâm flwch, a fydd yn cael ei hongian yn Mission Gallery yn Abertawe a'r Academi Frenhinol Gymreig yng Nghonwy.
- Rhaid i bob print gael ei lofnodi, ei rifo, a'i enwi gan yr artist, mewn pensil, o dan y ddelwedd.
- Rhaid i bob cyflwyniad fod yn wreiddiol ac wedi'i greu o fewn y 3 blynedd diwethaf.

**Gwerthu Gwaith**

***Bydd gofyn i bob artist a ddewiswyd gyflwyno 4 copi o'r un print dethol (heb ei fframio), a byddwn ni yn gyfrifol am eu fframio.***

Mae arddangosfa MiniPrint Cymru | Wales yn arddangosfa sy'n gwerthu, lle bydd yr holl brintiau ar werth. Cynghorir artistiaid y bydd 40% o gomisiwn yn cael ei gadw gan yr orielau (30%) a Gweithdy Argraffu Abertawe (10%), felly gosodwch eich prisiau gwerthu gyda hyn mewn cof.

- bydd 2 brint - 1 mewn ffrâm ac 1 heb ffrâm - yn cael eu harddangos ac ar gael i'w gwerthu yn y ddau leoliad arddangos. Bydd gofyn, felly, i bob artist a ddewisir anfon 4 o'r un print, hefyd ar bapur sy'n mesur 18cm x 18cm. Os yw'r print mewn monoteip, yna bydd thema monoteip debyg yn dderbyniol
- Bydd yr holl daliadau ar gyfer gwerthu printiau yn cael eu gwneud gan Mission Gallery yn y de a'r Academi Frenhinol Gymreig yn y gogledd, i'r artist ar ddiwedd pob cyfnod arddangos.

**Cymhwysedd**

Rhaid bod yr holl artistiaid a gwneuthurwyr printiau yn byw yng Nghymru; **neu** yn aelod o un o'r Partneriaid Rhanbarthol presennol: Academi Frenhinol Gymreig (Gogledd), Gweithdy Argraffu Abertawe (De), Gwneuthurwyr Printiau Aberystwyth (Gorllewin) a'r Ganolfan Argraffu Ranbarthol (Dwyrain); **neu** sy'n aelod o gyfleuster gwneud printiau yng Nghymru.

Unrhyw waith celf a grëwyd yn ystod y 3 blynedd diwethaf sy'n cydymffurfio â'r Gofynion Cyflwyno Print uchod.

**Amserlen Cyflwyno**

- Cyflwyniad digidol – Yn cau am hanner nos ddydd Llun, 28 Gorffennaf 2025
- Printiau deol i'w cyflwyno i Weithdy Argraffu Abertawe erbyn 4pm ar ddydd Llun, 4 Medi 2025.

**Dewis a Chyflenwi Printiau**

Ar ôl y cyflwyniad digidol, bydd y broses ddethol gan Banel Dethol MiniPrint Cymru | Wales yn cael ei chynnal, a bydd yr artist yn cael hysbysiad drwy e-bost erbyn dydd Llun, 11 Awst 2025 fan bellaf.

Ni fydd enwau artistiaid yn weladwy yn ystod y broses ddethol, a bydd y dewisiadau drwy gonsensws y Panel Dethol cyfan.

Bydd cyfarwyddiadau ar gyfer cyflwyno eich printiau'n bersonol yn cael eu hamlinellu yn yr e-bost dethol. Rhaid cyflwyno gwaith dethol i Weithdy Argraffu Abertawe yn 19a Clarence Street, Abertawe SA1 3QR.

Sylwer nad yw MiniPrint Cymru | Wales yn talu costau trafnidiaeth, gan gynnwys cludo a phostio.

**Dychwelyd Gwaith Heb ei Werthu**

Gellir casglu'r holl brintiau heb eu gwerthu yn yr arddangosfa derfynol yn yr Academi Frenhinol Gymreig. Bydd manylion ar gyfer casglu neu ddychwelyd drwy'r post yn cael eu rhoi ar ôl dethol.

**Atebolrwydd**

Cyfrifoldeb yr artist yw'r holl waith bob amser, felly gwnewch yn siŵr bod eich gwaith wedi'i yswirio'n ddigonol.

**Cyhoeddusrwydd a Hawlfraint**

Mae'r holl artistiaid sy'n cymryd rhan yn cytuno bod eu gwaith dethol yn cael sylw mewn deunyddiau cyhoeddusrwydd a marchnata digidol a thraddodiadol sy'n hyrwyddo'r arddangosfa. Mae hawlfraint yr holl weithiau yn dal i fod wedi'u breinio i'r artist, ond cedwir yr hawl i Mission Gallery, yr Academi Frenhinol Gymreig a Gweithdy Argraffu Abertawe i atgynhyrchu unrhyw un o'r printiau mewn cysylltiad â'r arddangosfa, a'i chyhoeddusrwydd, yn rhad ac am ddim.

**Lleoliadau Arddangosfeydd a Manylion Cyswllt**

De Cymru:
Mission Gallery, Gloucester Pl, Yr Ardal Forol, Abertawe SA1 1TY
https://www.missiongallery.co.uk
Gogledd Cymru:
Yr Academi Frenhinol Gymreig, Crown Lane, Conwy LL32 8AN
https://www.rcaconwy.org

**Crynodeb dyddiadau**

- Dyddiad agor cyflwyniadau – dydd Llun, 14 Ebrill 2025
- Dyddiad cau cyflwyniadau –  ganol nos, dydd Llun, 28 Gorffennaf 2025
- Rhoi gwybod i'r artistiaid am y detholiad a'r manylion cyflwyno - dydd Llun, 11 Awst 2025
- Dyddiad cau i'r printiau gyrraedd Gweithdy Argraffu Abertawe – erbyn 4pm ar ddydd Llun, 4 Medi 2025
- Arddangosiad Preifat yn Mission Gallery – dydd Sadwrn, 8 Tachwedd 2025
- Arddangosfa yn yr Oriel – dydd Sadwrn, 8 Tachwedd 2025 i ddydd Sadwrn, 10 Ionawr 2026
- Arddangosiad Preifat yn yr Academi Frenhinol Gymreig – dydd Sadwrn, 7 Mawrth 2026
- Arddangosfa yn yr Oriel – dydd Sadwrn, 7 Mawrth 2026 i ddydd Sadwrn, 25 Ebrill 2026
- Casglu'r printiau heb eu gwerthu – i'w gyhoeddi yn dilyn y dethol.

Bydd yr holl wybodaeth a ddarperir drwy'r broses ymgeisio yn cael ei rhannu gyda sefydliadau partner MiniPrint Cymru | Wales a'r lleoliadau arddangos, ac fe'u cadwyd ar gyfer dibenion MiniPrint Cymru | Wales yn unig.